Datganiad i'r Wasg

Chwefror 2012

Llwyddiant i fyfyrwyr Pen-y-bont ar Ogwr mewn cystadleuaeth genedlaethol

Mae pedair myfyrwraig o Goleg Penybont gam yn agosach at ennill cystadleuaeth ddylunio a lansiwyd gan Chwarae Teg, asiantaeth datblygu economaidd ar gyfer menywod.

Lansiwyd Cystadleuaeth Ddylunio Chwarae Teg ledled Cymru ym mis Hydref 2011. Yr her oedd i fyfyrwragedd celf a dylunio greu darn gwreiddiol o waith gan ddefnyddio logo'r sefydliad i gynrychioli thema chwarae teg i fenywod. Roedd gofyn i'r ymgeiswyr ail-ddehongli'r logo sy'n cynnwys rhubanau gwyrdd a phorffor y mudiad Swffragét.

Mae'r pedair sy'n astudio celf a dylunio yn ymuno â Brogan Kingsley o Brifysgol Glyndŵr, Wrecsam ar restr fer y rownd derfynol. Cyhoeddir enw enillydd y gystadleuaeth ynghyd â'r ail a'r drydedd mewn derbyniad i agor arddangosfa 20fed pen-blwydd Chwarae Teg ar Ddiwrnod Rhyngwladol y Menywod ar 8 Mawrth.

Mae'r pum arlunydd celf a dylunio yn y rownd derfynol, sy'n cynnwys Yasmine Jones, Katie May Bees, Verity Lunn a Charlotte O'Hare, yn awyddus i weld ai eu gwaith nhw gaiff ei ddyfarnu'n fuddugol. Caiff gwaith pob un o'r rhai a gyrhaeddodd y rownd derfynol ei arddangos yn gyhoeddus yn Amgueddfa Genedlaethol y Glannau yn Abertawe am 3 mis o 9 Mawrth.

Dywedodd Katie May Bees, 17 o Gilfach Goch, a gyflwynodd ddarn o ffotograffiaeth i'r gystadleuaeth yn dangos agoslun o lygad yn lliwiau Chwarae Teg: "Fy ysbrydoliaeth ar gyfer y cynllun oedd fi fy hun, gan mai menyw ydw i. Rydw i eisiau i fenywod fod yn gyfartal â dynion yn y gweithle ac mae defnyddio'r llygad yn dangos fod llygaid dynion a menywod yr un fath. Mae 'Gwyliwch y gofod hwn' yn tanlinellu fy argyhoeddiad y daw menywod yn gyfartal go iawn â dynion yn y pen draw."

Ychwanegodd Yasmine Jones, 18 o Borthcawl: “Roedd y gystadleuaeth yn gyfle i mi arbrofi gyda ffotograffiaeth a oedd yn brofiad dysgu gwych. Os dw i’n ennill, gallaf gynnwys y gwaith yn fy mhortffolio ar gyfer gwneud cais i astudio celfyddyd gain yn y brifysgol.”

Meddai Katy Chamberlain, prif weithredwr Chwarae Teg: “Roedd safon ceisiadau’r gystadleuaeth ddylunio yn eithriadol o uchel, a gallwch eu gweld nhw i gyd ar wefan Chwarae Teg. Mae rhai dehongliadau gwych o’r brîff wedi cofleidio neges chwarae teg yn llwyr. Pob lwc i bob un o’r rhai a gyrhaeddodd y rownd derfynol.”

DIWEDD

Ymholiadau pellach gan y cyfryngau – cysylltwch â Rachel Mortell neu Caroline Holmes yn Working Word ar 02920 646840 neu e-bostiwch rachel.mortell@workingword.co.uk/caroline.holmes@workingword.co.uk